# Cymhareb

| | |
|---|---|
| CYFLWYNYDD | A’r enillydd yw – Band-i-geidfran! |
| CAI | Hei – beth ydych chi’n feddwl o hon genod? Newydd ddechrau talu amdani. Barod i wneud sŵn?! |
| SARA | Cai, mae Lleucu’n dweud dy fod di wedi rhoi dwy fil o bunnoedd iddi ar ôl y gystadleuaeth ond dim ond mil wyth gant ges i. |
| LLEUCU | Ie! Beth sy’n mynd ymlaen? |
| AL GEBRA | Roedd e’n bryd i mi ymyrryd cyn i’r seren gawr yma droi’n seren gorrach! |
| CAI | Ymm... ydych chi o’r cwmni recordiau? |
| AL GEBRA | Mewn ffordd! Roeddwn i’n hen gyfarwydd â sut i gael record - ond dim y math yna o record... Al yw’r enw. Ditectif Preifat.<br><br>Ro’dd angen rhoi stop ar gawlach cymarebu Cai cyfrwys - a’r holl gyflythrennu yma! |
| CAI | Aros! Nes i rannu’r arian mewn cyfrannedd efo oedran pawb. Fi gafodd fwyaf achos fi ydi’r hynaf, a’r prif leisydd. |
| AL GEBRA | Ar ôl busnesu, ffeindiais i fod aelodau’r band yn un deg wyth, dau ddeg a dau ddeg dau - adiodd Cai eu hoedran at ei gilydd i gael chwe deg a gweithio’r taliadau ar sail hynny.<br><br>Roedd Sara’n un deg wyth, felly roedd hi’n cael un deg wyth rhan o chwe deg. Roedd Lleucu’n ddau ddeg ac yn cael dau ddeg rhan o chwe deg. Ond, beth am Cai Cyfrwys? |
| CAI | Dw i’n ddau ddeg dau, felly roedd fy siâr i yn ddau ddeg dau rhan o chwe deg. |


© Copyright 2016

| | |
|---|---|
| AL GEBRA | Y peth hawsaf i wneud oedd gweithio pethe mas tua'n ôl. Os yw un deg wyth siâr Sara yn fil wyth cant o bunnoedd, yna mae un siâr o'r wobr yn fil wyth cant wedi ei rannu gydag un deg wyth - sef can punt. |
| AL GEBRA | Ac os yw cyfanswm eu hoedran yn chwe deg, yna roedd y wobr yn chwe deg wedi ei luosi gyda'r can punt yna… |
| LLEUCU/SARA | O! Chwe mil o bunnoedd! |
| AL GEBRA | Roedd siâr Cai yn ddau ddeg dau lluosi â chant – dwy fil dau gant o bunnoedd. Cer-ching! |
| LLEUCU | Hei! Chwaraeon ni ddeuddeg cân yn y gystadleuaeth ac ysgrifennais i saith ohonyn nhw. Ysgrifennodd Sara dair a dim ond dwy ysgrifennaist ti! |
| AL GEBRA | Roedd hynny'n gymhareb o dri i saith i ddau. Byddai rhannu'r wobr o chwe mil o bunnoedd gydag un deg dau yn rhoi siâr o bum can punt y gân. Byddai Sara'n cael tair siâr, Lleucu saith a Cai cyfrwys dim ond yn cael dau. |
| CAI | Ond rŵan does gen i ddim digon o bres i dalu am y gitâr! |
| AL GEBRA | Dyw'r merched yn poeni dim! Pryna set o lwyau – maen nhw'n rhad ac yn swynol! |
| AL GEBRA | Cês wedi cau! |


© Copyright 2016